**Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
**Department for Environment, Planning and Countryside**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

I'r holl Brif Swyddogion
Cynllunio yng Nghymru

Eich cyf • Your ref:
Ein cyf • Our ref: A-PAA-69-09-005
(CL-08-06)
16 Tachwedd 2006

Annwyl Gydweithwyr

**Cylchlythyr 08-06**
**RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â CHLUDO NWYDDAU PERYGLUS: GOBLYGIADAU AR GYFER CYNLLUNIO DEFNYDD TIR**

Fel y gwyddoch o bosibl, daeth Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Cyfarpar Gwasgedd Cludadwy (Diwygio) 2005, a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, i rym ar 22 Gorffennaf 2005[1]. Mae'r Rheoliadau hyn yn mynnu bod cwmnïau sy'n ymwneud â chludo nwyddau peryglus yn sicrhau bod y safleoedd y maent yn eu defnyddio wrth storio nwyddau peryglus dros dro neu eu cludo, yn ddiogel. Mae Arolygwyr TRANSEC ac Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) yr Adran Drafnidiaeth yn monitro'r diwydiant ac yn ei orfodi i gydymffurfio â'r mesurau newydd hyn ar gyfer y ffordd a'r rheilffordd fel ei gilydd.

Mae gweithredu mesurau diogelwch o'r fath ar y safle yn lleihau'r perygl fod nwyddau peryglus yn cael eu dwyn a'u camddefnyddio i achosi niwed neu ddifrod i boblogaeth, economi neu amgylchedd y DU. **Nod y Rheoliadau yw helpu i wella diogelwch yn y diwydiannau ffordd a rheilffordd, heddiw ac yn y dyfodol.** Er mwyn cydymffurfio, gellid rhoi ystod o fesurau ar waith, megis gosod ffensys uchel, bwndau, ffosydd, clwydi diogelwch, systemau goleuo, rhwystrau ffyrdd wedi'u codi a chamerâu gwyliadwriaeth. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r Rheoliadau hyn, gyda'r nod o helpu cwmnïau i roi mesurau diogelwch newydd ar waith. Mae'r canllawiau hyn ar gael (yn Saesneg) ar wefan yr Adran Drafnidiaeth yn: **www.dft.gov.uk/security/dangerousgoods**

[1] Maent yn diwygio Rheoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a Defnyddio Cyfarpar Gwasgedd Cludadwy 2004 (O.S. 2004/568)

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn * Tel 029 2082 3580
Ffacs * Fax 029 2082 5622

GTN: 1208 3580

Mae'n bosibl y bydd angen cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol er mwyn gweithredu mesurau o'r fath.  Er enghraifft, mae'n debygol y byddai angen caniatâd cynllunio i osod goleuadau allanol "high-lux" newydd neu i godi ffens sy'n uwch na 2 medr o uchder.

Dylai ymgeiswyr gyfeirio'n briodol at y Rheoliadau a cheisio egluro sut y byddant yn cydymffurfio. Os yw'n briodol, rhaid iddynt hefyd egluro sut y maent yn cydymffurfio, neu'n bwriadu cydymffurfio, â rheoliadau iechyd a diogelwch[2], yn benodol, egluro eu bod wedi cael caniatâd priodol i gadw sylweddau peryglus. Efallai y byddai'r ymgeiswyr am drafod hyn â'u hawdurdod cynllunio lleol, sef, yn aml, yr awdurdod sylweddau peryglus.

Argymhellir yn gryf bod yr ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn cynnal trafodaethau cyn-ymgeisio. Dylai'r ymgeisydd fod yn barod i egluro'r rheswm dros y cynigion, a'r dewisiadau amgen a archwiliwyd er mwyn sicrhau'r lefel briodol o ddiogelwch. Dylai deialog o'r fath hefyd helpu i nodi a datrys materion yn gynnar a hwyluso'r broses ymgeisio ffurfiol.

Lle y cynigir datblygiad newydd, mae angen ystyried lleoliad a dyluniad y nodweddion diogelwch o'r cychwyn cyntaf, yn enwedig os yw'r prosiect wedi'i leoli mewn ardaloedd o werth penodedig, megis ardaloedd cadwraeth neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol gynnal archwiliad archaeolegol cyn iddo allu gwneud penderfyniad.

Fodd bynnag, wrth ystyried y cais, rhaid i'r awdurdodau cynllunio wrth arfer eu swyddogaethau, gadw mewn cof ofynion cyffredinol deddfwriaethau eraill a'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gan feddiannydd neu ddatblygwr y safle o dan y Rheoliadau newydd.

I grynhoi, wrth geisio dod o hyd i'r ateb gorau ar gyfer y safle, dylai awdurdodau ac ymgeiswyr geisio cytuno ar ffordd o fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r problemau sy'n codi gyda'r safle, a hynny cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylent hefyd sicrhau bod y nodweddion diogelwch sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2005 wedi'u dylunio'n sympathetig, gan ddefnyddio deunyddiau a gwaith tirlunio priodol.

Gellir cael cyngor ar Reoliadau 2005 oddi wrth:
Transport Security and Contingencies Directorate
Department for Transport
5/08 Southside
105 Victoria Street
London
SW1E 6DT

Ffôn:  020 7944 2881
Facs:  020 7944 2174
E-bost:  dgsecurity@dft.gsi.gov.uk

Er gwybodaeth, anfonir copïau o'r llythyr hwn at bobl enwebedig yn y diwydiant diogelwch, sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliad.

Yn gywir

Rosemary Thomas

ROSEMARY THOMAS
Pennaeth yr Is-adran Gynllunio

[2] Gweler Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992 (O.S. 1992/656) a'r rheoliadau diwygio, Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr) 1999 (O.S. 1999/981)